Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a elwir yr Ymchwiliad i'r Ardoll Brentisiaethau

---

Caiff polisi prentisiaethau yng Nghymru ei arwain gan fuddsoddiad mewn meysydd sy'n cyflawni'r enillion mwyaf – prentisiaethau a fydd yn ategu twf economaidd, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn hwyluso symudedd cymdeithasol.

Mae'n gyfnod lle mae'r economi yn newid yn gyflym ac mae technoleg yn ffactor pwysig iawn sy'n llywio'r newid hwnnw ac o gofio'r newidiadau o ran yr Undeb Ewropeaidd, bydd angen i fusnesau ddod yn fwy cynhyrchiol er mwyn parhau i fod yn gystadleuol. Rhaid inni sicrhau bod ein rhaglen prentisiaethau yn cefnogi'r agenda hon ac yn ymateb i'r her.

Rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu **isafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd i bobl o bob oed** yn ystod tymor presennol y Cynulliad ac mae'r cynllun polisi prentisiaethau a gyhoeddwyd gennym yn nodi ein blaenoriaethau buddsoddi mewn pum maes:

- **Ymateb i brinder sgiliau dybryd** – datblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau sy'n tyfu a chategorïau swyddi sy'n datblygu, yn unol â blaenoriaethau a bennwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

- **Cyflwyno ymagwedd bob oedran –** ym mis Awst 2016, cyflwynom ein hymagwedd tuag at brentisiaethau pob oedran, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n ceisio mynediad at y farchnad lafur neu ailymuno â hi. O fewn yr ymagwedd honno rydym yn bwriadu cynyddu nifer y bobl ifanc 16-19 oed sy'n ymgymryd â phrentisiaethau, gan ganolbwyntio ar bontio ymadawyr ysgol i gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel.

- **Swyddi a thwf – sicrhau bod y rhaglen yn gwella ei chyfraniad tuag at sgiliau lefel uwch** – gan ganolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, lle mae enillion yn tueddu i fod yn uwch a lle mae'r llwyddiant mwyaf yn cael ei weld mewn cyflawniadau gan wledydd eraill Ewrop. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd a pherthnasedd Prentisiaethau Sylfaen (lefel 2) i benderfynu a oes angen ymagwedd newydd er mwyn cwrdd â'r gofynion sgiliau ar gyfer swyddi lefel mynediad.

- **Ansawdd a Meincnodi** – gwella mesurau perfformiad. Ar hyn o bryd mae llwyddiant y rhaglen prentisiaethau yn cael ei fesur drwy gyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith. Yn y dyfodol bydd mwy o sylw'n cael ei roi i lwyddiant drwy sicrhau cyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy. Mae cystadlaethau sgiliau a gynhelir o amgylch y byd yn arddangos ac yn ysbrydoli rhagoriaeth o'r radd flaenaf mewn sgiliau ac yn cyflwyno amrywiaeth o yrfaoedd medrus i bobl ifanc. Bydd ein gwaith ar gystadlaethau sgiliau yn ein helpu ni i feincnodi ein prentisiaid mewn cymhariaeth â chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig a sgiliau rhyngwladol.

- **Gwella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal –** rydym yn helpu pobl i gael cyflogaeth am y tro cyntaf ac yn canolbwyntio o'r newydd hefyd ar helpu pobl i symud ymlaen yn y gweithle drwy gael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant o ansawdd uwch. Byddwn yn parhau i ofalu bod y grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar ein rhaglen ac rydym wedi penodi hyrwyddwr cydraddoldeb yn unswydd i ymgymryd â'r gwaith hwn. O ran mynediad, mae angen i'r holl ddysgwyr a chyflogwyr gael gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, pryd y mae recriwtio'n digwydd a pha mor hir fydd y rhaglen yn parhau. Bydd y rhyngwyneb digidol i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i ddarparwyr a phrentisiaid yn cael ei wella.

- **Darparu Prentisiaethau yn Gymraeg** – bydd cyfleoedd gwell i ddilyn prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan sicrhau y bydd pob dysgwr yn cael cyfle i gynnal a datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg.

- **Datblygu llwybrau sgiliau** – integreiddio prentisiaethau â'r system addysg ehangach. Creu cydweithredu cryfach rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol ac edrych ar y ffordd mae'r systemau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cynnig cynhwysfawr cyfunol ar gyfer prentisiaethau. Bydd canlyniad Adolygiad Diamond yn ategu datblygiadau mewn prentisiaethau ar lefel gradd. I gyflawni'r newid sylweddol hwn yn y rhaglen, rhoddir rhagor o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r sector addysg uwch.

- **Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu'r fframwaith** – er mwyn sicrhau bod Prentisiaethau'n cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant.

I helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn rydym wedi **sicrhau cynnydd o £15 miliwn yn ein buddsoddiad mewn prentisiaethau yn 2017-18**. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i sicrhau nad yw cyflogwyr yn cael eu rhoi o dan anfantais o ganlyniad i'r Ardoll Brentisiaethau. Gwnaed y cynnydd hwn er gwaethaf y ffaith nad oes cyllid ychwanegol amlwg ar gael i Gymru o ganlyniad i'r ardoll.

Yng Nghymru byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau ar lefelau uwch mewn meysydd technegol a sectorau blaenoriaeth er mwyn i gyflogwyr sy'n talu ardoll allu manteisio ar yr hyfforddiant gorau. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori â chyflogwyr i bennu'r galw o ran sgiliau ac yn cyhoeddi asesiadau sgiliau blynyddol a fydd yn dylanwadu ar ein buddsoddiad mewn prentisiaethau o ansawdd a blaenoriaethau cenedlaethol.

Fel pwynt olaf, mae ein hymagwedd yng Nghymru yn cael ei llywio'n drwm gan fuddsoddiad mewn prentisiaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Cafwyd nifer o adroddiadau yn ddiweddar a oedd yn beirniadu'r dull a ddefnyddiwyd yn Lloegr. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid oll wedi dweud nad yw e'n yn glir sut y bydd dull Lloegr o ddarparu prentisiaethau yn hyrwyddo cynhyrchiant a thwf economaidd.

Yng Nghymru, byddwn yn sicrhau'r enillion mwyaf posibl o fuddsoddiad cyhoeddus drwy ddarpariaeth o ansawdd uchel.

Caiff Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad eu nodi isod:

Argymhelliad 1

Rhaid i'r Gweinidog ddwysáu ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cyflogwr sy'n talu Ardoll yng Nghymru yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod cyfnod rhagarweiniol yr Ardoll

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yng Nghymru, gall cyflogwyr gael mynediad i brentisiaethau a ariennir mewn ystod o feysydd blaenoriaeth drwy ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy, sy'n gweithio gyda chyflogwyr i ganfod eu hanghenion a chytuno ar becyn hyfforddi i ddiwallu'r anghenion hynny. Rydym wedi cyhoeddi canllaw ffeithiol ar gyfleoedd ar gyfer y sawl sy'n talu ardoll yng Nghymru, sy'n nodi sut y gall cyflogwyr gael mynediad i brentisiaethau yn cynnwys nodi sectorau blaenoriaeth[1]. Drwy'r canllaw gall cyflogwyr gwblhau holiadur diagnostig byr y gellir ei gyflwyno i swyddogion a fydd yn cysylltu â hwy yn uniongyrchol.

Rydym hefyd wedi sefydlu tîm o gynghorwyr cyflogaeth o fewn Uned Prentisiaethau Llywodraeth Cymru sy'n gallu helpu cyflogwyr i bennu effaith yr ardoll a sut y gellir eu cefnogi. Bydd y tîm yn asesu sut mae prentisiaethau cyfredol yn diwallu anghenion cyflogwyr a sut y gall cyflogwyr sicrhau'r cyllid mwyaf posibl gan Lywodraeth Cymru. Mae tystiolaeth barhaus yn dod i'r golwg sy'n dangos bod angen adolygu cynnwys prentisiaethau ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wneud hynny.

Disgwylir mai'r pwynt cyswllt cychwynnol i lawer o gyflogwyr yw Busnes Cymru sydd wedi cael ei friffio'n llawn ar yr ardoll brentisiaethau a'r broses atgyfeirio sydd ar waith i gael mynediad at raglen prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Ar lefel ehangach, bydd ymgysylltu parhaus â chyflogwyr a chyrff cynrychioliadol. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori'n uniongyrchol â chyflogwyr sy'n talu ardoll er mwyn pennu galwadau o ran sgiliau sy'n deillio o'r ardoll ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn fel rhan o'u hasesiadau sgiliau blynyddol sy'n dylanwadu ar ba feysydd y byddwn yn buddsoddi ynddynt.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen cyfnod o sefydlogi a sicrwydd ar gyfer y sector yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog barhau i ymgysylltu â'r cyflogwyr o

[1] Pecyn Cyfathrebu ar gyfer y Polisi Sgiliau a'r Ardoll Prentisiaethau: https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/dfes/files/documents/pecyn_cyfathrebu_ar_gyfer_polisi_sgiliau_ar_ardoll_prentisiaethau.pdf

bob sector yn y misoedd nesaf a dylai nodi sut mae'n bwriadu gwneud hyn yn ei hymateb.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi cyhoeddi ein dogfen Bolisi sy'n amlinellu ein cyfeiriad ac mae'r ymrwymiad o 100,000 o brentisiaethau yn rhoi sefydlogrwydd i Gymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr a grwpiau cynrychioliadol yn ystod y cyfnod cyflwyno. Bydd Busnes Cymru yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau angor, cyflogwyr sy'n bwysig yn rhanbarthol a chyflogwyr eraill mwy o faint; bydd darparwyr hyfforddiant cymeradwy yn parhau i weithio gyda'u rhwydwaith o gyflogwyr; a bydd swyddogion yn parhau â'r ddeialog â grwpiau sector a chyflogwyr unigol. Mae swyddogion eisoes yn gweithio'n weithredol â mwy na 200 o gyflogwyr ar draws sectorau i ganfod ac i helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion. Gan weithio gyda'r Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol i Gymru, rydym yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau prentisiaeth sydd wedi'u hanelu at sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r rhaglen prentisiaethau ac i godi ymwybyddiaeth ohoni.

Fel y nodwyd o dan Argymhelliad 1, byddwn yn sefydlu tîm o gynghorwyr sy'n gallu helpu cyflogwyr i bennu effaith yr ardoll a'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu effeithiau'r Ardoll ar gyflogwyr yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau hyn i'r Pwyllgor ymhen blwyddyn, fan bellaf, ar ôl i'r Ardoll gael ei chyflwyno ar 6 Ebrill 2017.

Ymateb: Gwrthod

Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb dros faterion trethiant a Pholisi Llywodraeth y DU yw'r Ardoll Brentisiaethau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn credu na ddylai unrhyw ardollau yn y dyfodol mewn cymhwysedd datganoledig gael eu cyflwyno heb gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i nodi hyn gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Lle bynnag y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod unrhyw ddarpariaeth gan Fil Seneddol y DU i ddeddfu mewn perthynas â mater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu'n ceisio deddfu i newid cymhwysedd y Cynulliad, byddwn yn ceisio sicrhau bod y Cynulliad yn cael y cyfle i ystyried rhoi cydsyniad ai peidio, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

O ran yr Ardoll, rydym ni a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU wedi galw eisoes ar Lywodraeth y DU i ymgynghori'n llawn â ni cyn cyhoeddi newidiadau i drethi sydd â goblygiadau i'n cyfrifoldebau datganoledig.

Mae'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth wedi droeon bod yr Ardoll Brentisiaethau yn gwrthdaro'n uniongyrchol â meysydd cyfrifoldeb datganoledig, ac yn anwybyddu'n llwyr ein dull penodol iawn o gefnogi prentisiaethau yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwell cyfathrebu rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig rhwng Gweinidogion a rhwng swyddogion. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn codi'r mater gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

Ymateb: Gwrthod

Gwnaed penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau heb ymgynghori ymlaen llaw â'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd hyn er gwaethaf sianeli cyfathrebu sefydledig rhwng Gweinidogion a rhwng swyddogion:

- Mae cyfarfod rhwng Gweinidogion y Pedair Gwlad sy'n canolbwyntio ar bolisi sgiliau wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2017 yng Nghaerdydd. Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Uwch Swyddogion y Pedair Gwlad ar Addysg Broffesiynol a Thechnegol, a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2017. Mae'n gweithredu fel fforwm i rannu datblygiadau polisi o fewn pob gwlad ac i drafod materion sgiliau trawsffiniol. Ymhlith y meysydd o ddiddordeb cyffredin mae effaith Brexit, datganoli'r Gyllideb Addysg i Oedolion, prentisiaethau a dysgu gydol oes/uwchsgilio cyflogeion. Mae'r Cyfarfod Pedair Gwlad nesaf ar gyfer uwch swyddogion wedi'i drefnu yng Nghaerdydd ym mis Medi.

- Mae cysylltiadau gwaith cryf rhwng swyddogion o fewn y pedair gwlad drwy gyfarfodydd ffurfiol rheolaidd a chyfarfodydd thematig i drafod dulliau polisi penodol, megis cyflwyno'r ardoll. Drwy ein sgyrsiau â'r gwledydd, rydym wedi gallu datblygu polisi sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn enwedig drwy gael gwybodaeth gynnar am Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r broses hon barhau wrth i Lywodraeth y DU ddatblygu ei dull mewn perthynas ag addysg dechnegol ôl-16 drwy'r Sefydliad Prentisiaethau (y Sefydliad ar gyfer Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol o 2018 ymlaen).

- Ymhlith y trefniadau ffurfiol presennol mae Grŵp Llywodraethu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n cyfarfod yn chwarterol (mae Cylch Gorchwyl ar gael os bydd angen). Mae swyddogion yr Adran Addysg wedi gwrthod cael cynrychiolydd ar y grŵp hwn, ond maent wedi trefnu cyfarfod (15 Mai) rhwng aelodau'r Sefydliad Prentisiaethau, yr Adran Addysg a Grŵp Llywodraethu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (a fydd yn cynnwys swyddogion y Llywodraeth o'r gwledydd datganoledig). Bydd y cyfarfod yn trafod rhinweddau cynnal safonau galwedigaethol ledled y DU ac yn ceisio sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y tair gwlad Geltaidd a Lloegr mewn perthynas â Safonau sy'n ategu Fframweithiau Prentisiaeth er mwyn lleihau dryswch a gwahaniaethau trawsffiniol ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr.

- Mae Grŵp Prentisiaethau'r Pedair Gwlad wedi cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i ystyried datblygiadau cyfredol ac i rannu syniadau polisi, yn cynnwys systemau ar gyfer datblygu prentisiaethau, dulliau o integreiddio rhaglenni ymgysylltu a chynnwys pobl ifanc. Er bod Grŵp Prentisiaethau'r Pedair Gwlad wedi cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ers 2014, mae newidiadau mewn staffio yn Llywodraeth y DU (o ganlyniad i ymadawiad gwirfoddol, aildrefnu a symud portffolios o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i'r Adran Addysg) a'r ffocws ar yr ardoll wedi golygu bod y cyfarfodydd hyn yn dod yn llai rheolaidd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwysáu ei hymdrechion i dawelu pryderon sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yng Nghymru drwy weithio gyda nhw i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant, gan gynnwys llwybrau prentisiaeth newydd, mewn meysydd llai traddodiadol fel gwasanaethau ariannol, rheoli prosiectau, adnoddau dynol a logisteg.

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd yr ymgyrch i ddatblygu a darparu prentisiaethau ar lefelau uwch, mewn meysydd technegol a sectorau blaenoriaeth yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth brentisiaethau lefel is. Rydym yn cydnabod y bydd gan gyflogwyr, serch hynny, anghenion datblygu'r gweithlu ar gyfer rhaglenni hyblyg, tymor byr yn y meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, megis manwerthu, gweinyddu busnes a gwasanaethau cwsmeriaid.

Er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion, rydym yn edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â bylchau sgiliau ac anghenion hyfforddi cyflogeion presennol lle na fyddai prentisiaeth lawn yn briodol o bosibl. Bydd ein rhaglen cyflogadwyedd yn cynnig cymorth cyflogadwyedd mewn sawl achos i'r rhai sy'n chwilio am waith. Byddai angen i'r cyfryw hyfforddiant fodloni safonau'r diwydiant a darparu gwerth i gyflogeion a chyflogwyr fel ei gilydd. Ar ôl cytuno ar opsiynau cychwynnol a hyblygrwydd, disgwyliwn ymgynghori â chyflogwyr a phartïon eraill â diddordeb.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu neu addasu prentisiaethau presennol i ategu anghenion busnes.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu sicrhau bod pob cyflogwr (gan gynnwys y rhai mewn sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth sy'n gwneud taliadau Ardoll) yn ymwybodol o'r cyfleoedd i oresgyn y mater 'dim adenillion uniongyrchol' drwy fodel Cymru o gyflawni prentisiaeth.

Ymateb: Gwrthod

Mae cyflogwyr sy'n cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau yn gallu cael mynediad i brentisiaethau heb unrhyw gyfyngiadau a heb fod angen talebau digidol. I'r gwrthwyneb, bydd angen i gyflogwyr sy'n talu'r ardoll yn Lloegr ddewis darparwyr hyfforddiant eu hunain a chytuno ar bris ar gyfer yr hyfforddiant.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno system talebau digidol. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth y byddai system talebau yn gwella ansawdd o fewn y system. Fodd bynnag, byddai'n cyflwyno biwrocratiaeth i gyflogwyr ac ansicrwydd ynghylch sut y byddai cyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll yn cael eu cefnogi. Bu anawsterau yn y gorffennol hefyd gyda thalebau addysg a hyfforddiant yn y DU. Mae llawer o gyflogwyr a chyrff cyflogwyr wedi beirniadu'r system sy'n cael ei chynnig yn Lloegr.

I gefnogi cyflogwyr sy'n darparu prentisaethau mewn sector/maes nad yw'n flaenoriaeth, megis gweinyddu busnes, gwasanaethau cwsmeriaid neu fanwerthu ar lefel Sylfaen 2, bydd darparwyr hyfforddiant yn cynnal dadansoddiad sgiliau i weld sut y gallent aildrefnu eu dull o ddatblygu'r gweithlu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau.

Rydym yn cydnabod y bydd gan gyflogwyr, serch hynny, anghenion datblygu'r gweithlu ar gyfer rhaglenni hyblyg, tymor byr yn y meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth. Er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion, rydym yn edrych ar sut y gallwn lenwi'r bylchau mewn sgiliau a diwallu anghenion hyfforddi cyflogeion presennol lle na fydd prentisiaeth lawn yn briodol. Byddai angen i'r cyfryw hyfforddiant fodloni safonau'r diwydiant a darparu gwerth i gyflogeion a chyflogwyr fel ei gilydd. Ar ôl cytuno ar opsiynau cychwynnol a hyblygrwydd, disgwyliwn ymgynghori â chyflogwyr a phartïon eraill â diddordeb.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi arfer da ac yn gwerthuso'r cynigion ar gyfer y gronfa sgiliau hyblyg yn yr Alban (a elwir yn Gronfa Datblygu Gweithlu Hyblyg).

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae ein rhaglen prentisiaethau yn seiliedig ar dystiolaeth a gwerthusiad o arfer gorau o fewn y DU a thu hwnt. Mae rhannu arbenigedd a phrofiadau'r sector â gwledydd eraill wedi bod yn hanfodol i gynllunio a darparu ein rhaglen o ansawdd uchel. Wrth ddatblygu cynigion i fynd i'r afael ag anghenion cyflogwyr sy'n talu'r ardoll sydd y tu allan i gwmpas y rhaglen brentisiaethau, byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio orau i gyflogwyr a dysgwyr fel ei gilydd, yn cynnwys sut y mae rhaglenni presennol yn gweithredu.

Mae Cronfa Datblygu'r Gweithlu yn yr Alban yn debyg i'n Rhaglen Sgiliau Hyblyg sy'n darparu cymorth ariannol 'uniongyrchol' i gyflogwr ar gyfer datblygu sgiliau. Bydd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â sgiliau a recriwtio i bob ymgeisydd drwy gyfrwng system rheoli perthynas. Rydym wedi rhoi briff ar y Rhaglen Sgiliau Hyblyg i gymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo a gwella'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau ymysg cyflogwyr yng Nghymru, yn enwedig ymysg y sectorau hynny nad ydynt yn draddodiadol wedi cael llwybrau clir i brentisiaethau lefel uwch.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ein blaenoriaethau yw cynyddu prentisiaethau lefel uwch mewn sectorau megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a gwasanaethau proffesiynol – sectorau lle mae prinder sgiliau. Mae hyn yn golygu symud ein buddsoddiad i hyfforddiant lefel uwch mewn meysydd blaenoriaeth.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn allweddol i'n dealltwriaeth o'r angen a'r galw am sgiliau ledled Cymru; maent yn ymgynghori â chyflogwyr i bennu'r galwadau o ran sgiliau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn fel rhan o'u hasesiadau sgiliau blynyddol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn ein helpu i fuddsoddi mewn prentisiaethau lle mae galw ac angen amdanynt.

Byddwn hefyd yn cynnwys cyflogwyr o fewn y strwythur gwneud penderfyniadau drwy Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, a fydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu prentisiaethau i sicrhau eu bod wedi'u cysoni ag anghenion cyflogwyr.

Mae swyddogion yn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer datblygu prosiect Rhwydwaith Ymgysylltu â Phrentisiaethau a fydd yn dod ag ystod o gyrff cynrychioliadol cyflogwyr a chyn brentisiaid at ei gilydd i hyrwyddo'r rhaglen drwy amrywiol fentrau.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda chymheiriaid i sicrhau bod cyfleoedd i helpu busnesau i oresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu 4 system ar wahân yn cael eu nodi.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid ledled y DU i sicrhau bod y system brentisiaeth yn parhau i gefnogi cyflogwyr. Er enghraifft, mae swyddogion wedi gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sefydlu a chynnal gallu Cynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth er mwyn ymateb i'r galw gan gyflogwyr yng Nghymru. Yn dilyn tranc UKCES, ym mis Tachwedd 2016 mae'r gwledydd datganoledig, ar y cyd, wedi comisiynu rhwydwaith o bartneriaid cyflenwi i weithredu fel gwarcheidwaid ar gyfer y system Safonau Galwedigaethol a'r Fframwaith Cenedlaethol ar draws y gwledydd datganoledig, o dan gontract Datblygu Sgiliau'r Alban. Mae comisiynu ar y cyd wedi golygu ein bod yn gallu cytuno ar bris comisiynu penodedig ar gyfer pob cynnyrch, sydd, er ei fod yr un peth â'r llynedd, yn ostyngiad ar brisiau comisiynu'r blynyddoedd diwethaf. Yn ychwanegol at hyn, nid oes dyblygu o ran tendro ar gyfer gweithgarwch a cheisiadau datblygu gan bartneriaid cyflenwi. Mae'r trefniant hwn yn helpu i sicrhau hyfywedd y partneriaid cyflenwi i gwblhau cynnyrch a gomisiynwyd.

Bydd angen i'r datrysiadau weithredu o fewn polisïau datganoli perthnasol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn edrych ar opsiynau i weithio gyda busnesau a chyflogwyr i gael prentisiaethau gyda sectorau nad ydynt yn cyflogi prentisiaid yn draddodiadol.

Ymateb: Derbyn

Rydym eisoes yn ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen drwy fuddsoddi mewn prentisiaethau mewn galwedigaethau a sectorau newydd – y prentisiaethau hynny a fydd yn ategu twf economaidd, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn helpu unigolion i gael gwell swyddi. Mae'r dull hwn yn tanlinellu ein bwriad i baratoi unigolion ar gyfer swyddi'r dyfodol y gwyddom y byddant yn gofyn am lefelau uwch o gymhwysedd nag yr oeddent yn y gorffennol. Mae swyddogion yn ymgysylltu'n weithredol â

sefydliadau o'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn pennu sut y gall y rhaglen prentisiaethau gefnogi eu hanghenion cynllunio'r gweithlu.

Ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r gwasanaeth tân ac achub, rydym wedi ymrwymo i sefydlu gweithgor i ganolbwyntio'n benodol ar eu hanghenion cynllunio'r gweithlu, gan adolygu fframweithiau prentisiaeth presennol o ran addasrwydd a datblygu fframweithiau newydd lle bo angen. Yn y tymor canolig a'r tymor hwy, bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r rhaglen prentisiaethau i gefnogi anghenion cynllunio eu gweithlu yn well ynghyd â symudedd staff ar draws y sector cyhoeddus.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS) y GIG i ddeall sut y gall y rhaglen prentisiaethau gefnogi anghenion datblygu'r gweithlu. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu prentisiaeth uwch i gefnogi gwasanaeth gwybodeg y GIG sy'n anelu at greu gwasanaeth cofnodion di-bapur. Rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio gyda'r GIG ar gyfres o weithdai sydd wedi'u hanelu at godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen brentisiaeth ar draws y GIG.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell ar frys bod y Gweinidog yn lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw nifer y bobl a gyflogir gan awdurdodau lleol mewn ysgolion yn cael eu cynnwys yn nifer y cyflogeion cyffredinol awdurdodau lleol at ddibenion cyfrifo'r Ardoll. Bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar gyllidebau ysgolion yng Nghymru ac mae'n mynd yn groes i'r ffordd y caiff ysgolion Academi eu trin yn Lloegr.

Ymateb: Gwrthod

Treth gyflogaeth sydd wedi'i chyflwyno gan Senedd San Steffan ac sy'n gymwys i'r DU gyfan yw'r Ardoll Brentisiaethau. Caiff yr ardoll ei thalu gan unrhyw sefydliad sydd â chyflogres sy'n fwy na £3 miliwn y flwyddyn. Yng Nghymru, caiff y rhan fwyaf o ysgolion eu cynnal gan awdurdodau lleol, felly, bydd cyflwyno'r ardoll yn effeithio ar eu cyllidebau, beth bynnag eu maint. Nid yw system academi Lloegr wedi cael ei mabwysiadu yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i godi pryderon drwy gyfrwng cyfarfodydd rhwng Gweinidogion y Pedair Gwlad ac yn uniongyrchol gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â goblygiadau'r ardoll.

Mae swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i bennu sut y gall y rhaglen prentisiaethau gefnogi anghenion cynllunio eu gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut y gellid ei defnyddio o bosibl i gefnogi ysgolion y mae cyflwyno'r ardoll wedi cael effaith andwyol arnynt.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda heddluoedd yng Nghymru a gyda'i chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau na fydd heddluoedd Cymru o dan anfantais annheg gan y bydd yn rhaid i heddluoedd yng Nghymru dalu'r Ardoll ond na allant ddefnyddio'r Ardoll i gyfrannu at gyrsiau achrededig yng Nghymru.

Ymateb: Gwrthod

Mae £0.5 miliwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y cyfnod 2017/18 i sicrhau nad ydynt o dan anfantais o ganlyniad i'r Ardoll Brentisiaethau. Mae swyddogion hefyd yn cysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Coleg Plismona i ddeall sut y byddai'r prentisiaethau heddlu newydd gan y Coleg Plismona yn gweithredu yng Nghymru. Cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw cyllid ar gyfer hyfforddi swyddogion yr heddlu yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
Minister for Skills and Science